

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Iaith Arwyddion Prydain

Ebrill 2022

1. Cefndir

- Mae'r adroddiad hwn yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm) ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (y Bil). Gosodwyd y Memorandwm gerbron y Senedd ar 8 Mawrth 2022 gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.
- Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 26 Mai 2022. Yn ddiweddarach, cafodd y dyddiad cau ei newid i 26 Ebrill 2022.

2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

- Mae paragraffau 3 i 8 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 9 a 10 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad yn eu cylch. Mae paragraff 11 yn nodi'r rhesymau pam y gwneir darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil.
- Mae paragraff 12 o'r Memorandwm yn nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i'r Bil.
- Yn y casgliad ar ddiwedd y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi ei barn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau sydd wedi'u nodi yn y Bil "gan fod y Bil yn hyrwyddo cyfle



cyfartal mewn ffordd sy'n gymesur â'n safbwynt ni ac nad yw'n cynnig unrhyw ymyrraeth uniongyrchol â swyddogaethau datganoledig." Aiff yn ei blaen i ddweud:

*"Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil."*¹

3. Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Mae'r Memorandwm yn datgan bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymalau 1, 2 a 3 o'r Bil. Mae'r cymalau hynny wedi'u crynhoi isod:

Cymal 1: Cydnabod Iaith Arwyddion Prydain

7. Mae Cymal 1 yn cydnabod bod Iaith Arwyddion Prydain yn un o ieithoedd Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn glir nad yw'r Bil yn bwriadu effeithio ar weithrediad unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol; yn benodol, nid yw'r gydnabyddiaeth yn effeithio ar y fframwaith diogelu a ddarperir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol).

Cymal 2: Dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd ar Iaith Arwyddion Prydain

8. Mae Cymal 2 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd ar yr hyn y mae adrannau gweinidogol Llywodraeth y DU wedi'i wneud i hybu neu hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain wrth gyfathrebu â'r cyhoedd.

9. Mae'r cymal yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol gasglu, na chynnwys yn yr adroddiad, wybodaeth am unrhyw gyfathrebu gan adran berthnasol yn y llywodraeth i'r graddau y mae'r cyfathrebu hwnnw'n ymwneud â Chymru yn unig ac nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

10. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd adrodd.

Cymal 3: Canllawiau ar ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain

11. Mae Cymal 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar hybu a hwyluso Iaith Arwyddion Prydain. Mae'n darparu y bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r cymal yn mynd

¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Iaith Arwyddion Prydain, paragraff 13

rhangddo i nodi y gellid cyflwyno gwybodaeth gyffredinol yn disgrifio ffurf ramadegol a dull ieithyddol iaith Arwyddion Prydain, ochr yn ochr â disgrifiadau o'r heriau sy'n wynebu defnyddwyr iaith Arwyddion Prydain ac a allai fod o ddiddordeb ehangach.

12. Mae'r cymal yn darparu na chaiff y canllawiau gynnwys cyngor na deunydd sy'n ymwneud â Chymru yn unig ac na chânt ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

13. Mae'r Memorandwm yn nodi:

*"Mae'r holl ddarpariaethau'n ymwneud â'r cymal cadw 'cyfle cyfartal' yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ond maent yn dod o fewn yr eithriad o ran 'hyrwyddo cyfle cyfartal'. Felly, rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau uchod."*²

4. Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil

14. Mae'r Memorandwm yn datgan:

"Mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn ddyletswydd sy'n dod i ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cydnabu Llywodraeth Cymru iaith Arwyddion Prydain yn ffurfiol fel iaith ynddo'i hun ym mis Ionawr 2004, ond nid yw hyn yn cael effaith gyfreithiol. Nid yw'r Bil yn effeithio ar weithrediad unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac nid yw'n gosod unrhyw rwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru nac ar Awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru. Bydd y darpariaethau yn y Bil o fudd i bobl Cymru drwy hwyluso'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain gan adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n arfer eu swyddogaethau a gadwyd yn ôl yng Nghymru. Mae'r Bil yn rhoi effaith gyfreithiol i iaith Arwyddion Prydain fel iaith yng Nghymru drwy osod dyletswyddau a rhwymedigaethau ar awdurdodau a gadwyd yn ôl ac ni fyddai dim i atal y Senedd rhag deddfu mewn ffordd debyg i osod

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Iaith Arwyddion Prydain, paragraff 10

dyletswyddau a rhwymedigaethau tebyg ar Awdurdodau datganoledig Cymru."³

5. Trafodaeth a chasgliad y Pwyllgor

15. Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 25 Ebrill 2022.⁴

16. Rydym yn nodi'r darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer. Ymhellach, nodwn resymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil, yn enwedig y ffaith bod y Bil yn hyrwyddo cydraddoldeb mewn ffordd sy'n gymesur â safbwynt Llywodraeth Cymru ei hun.

17. Mynegodd un Aelod bryder ynghylch yr egwyddor bod deddfwriaeth a fydd yn gymwys yng Nghymru yn cael ei deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU yn hytrach na Bil Llywodraeth Cymru. Nid oes gan y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i gytuno ar y Cynnig.

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Iaith Arwyddion Prydain, paragraff 11

⁴ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 25 Ebrill 2022
